OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2013 Rhif 2405 (Cy. 232)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 25A, Grove Park i Gyffordd 26, Malpas, Casnewydd) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2013

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *20 Medi 2013* |
| *Yn dod i rym* | *28 Medi 2013* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Drafford Llundain – De Cymru (yr M4) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y drafford"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r drafford oherwydd gwaith sy'n cael ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 28 Medi 2013. Ei enw yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 25A, Grove Park i Gyffordd 26, Malpas, Casnewydd) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2013.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 28 Medi 2013 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y darnau o’r draffordd” (“*the lengths of the motorway*”) yw’r darnau o draffordd yr M4, yn Ninas Casnewydd, a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiadau**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o’r draffordd a bennir yn yr Atodlen.

**Cymhwyso**

**4.** Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

**Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn**

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 20 Medi 2013

***R MORGAN***
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae’r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## YR ATODLEN

### Darnau o Draffordd yr M4 rhwng Cyffordd 25A, Grove Park a Chyffordd 26, Malpas yn Ninas Casnewydd.

i) Y darn hwnnw o’r brif gerbytffordd tua’r gorllewin sy’n ymestyn o ddechrau trwyniad ffisegol y ffordd ymadael tua’r gorllewin wrth Gyffordd 25A, Grove Park hyd at ddiwedd trwyniad ffisegol y ffordd ymuno tua’r gorllewin wrth Gyffordd 26, Malpas.

ii) Y darn hwnnw o’r brif gerbytffordd tua’r dwyrain sy’n ymestyn o ddechrau trwyniad ffisegol y ffordd ymadael tua’r dwyrain wrth Gyffordd 26, Malpas hyd at ddiwedd trwyniad ffisegol y ffordd ymuno tua’r dwyrain wrth Gyffordd 25A, Grove Park.